# AB a chymwysterau wedi'u hesbonio

Yma yng Ngholeg Penybont rydym yn anelu at gefnogi ein holl ddysgwyr trwy gydol eu hastudiaethau trwy ddarparu addysg o ansawdd uchel er mwyn i ti allu 'bod yn bopeth y gallet fod'.

Rydym yn cynnig ystod eang o gyrsiau, o Lefel Mynediad i Radd mewn dros 20 o feysydd galwedigaethol.

## Addysg Bellach

Mae ein cyrsiau Addysg Bellach, neu gyrsiau AB, fel y'u gelwir, yn bennaf yn llawn amser ac yn amrywio o lefel Mynediad hyd at Ddiploma Estynedig Lefel 3. Mae ein cyrsiau AB ar gael i ddysgwyr dros 16 oed sy'n ceisio ymestyn eu haddysg ar ôl ysgol, boed hynny'n mynd i brifysgol neu i ddechrau gyrfa. Yn gyffredinol, cyflawnir hyn trwy ddysgu yn y gwaith ac asesiadau yn y dosbarth. Mae llawer o'n cyrsiau yn rhoi'r cyfle i ti ymweld neu ymgymryd â phrofiad gwaith gyda chwmnïau allanol.

## Cyrsiau galwedigaethol

Mae cyrsiau galwedigaethol yn gymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith sydd wedi'u cynllunio'n benodol i dy helpu i ennill sgiliau a phrofiad sy'n gysylltiedig â gwaith, gan sicrhau dy fod yn cael hyfforddiant digonol ar gyfer y gweithle.

Cynigir y rhan fwyaf o gyrsiau'n llawn amser ond mae llawer wedi'u hanelu at bobl mewn gwaith sydd angen cymwysterau ychwanegol i wella eu gyrfa.

**Byddet yn bopeth y gallet fod.**



**Ymwadiad:**
Er y gwneir pob ymdrech i gydymffurfio â chanllaw'r cwrs, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i ddiwygio'r cynnwys a ddyfynnir, heb rybudd. Cymerir pob gofal gan Goleg Penybont i sicrhau cywirdeb y canllaw cwrs hwn ac i ddarparu'r cyrsiau a'r gwasanaethau a ddisgrifir. Fodd bynnag, ni all y Coleg warantu eu darpariaeth pe bai amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.

# Pam astudio yng Ngholeg Penybont?



## Lleoliad, lleoliad, lleoliad!

Mae gennym 4 o gampysau ar draws rhanbarth De Cymru, pob un wedi'i leoli'n ddelfrydol gan ganiatáu mynediad hawdd at gysylltiadau trafnidiaeth ac amwynderau lleol. Gyda champysau yng nghanol tref Penybont, Pencoed a Maesteg gallet brofi'r gorau o bopeth, o gefn gwlad a thraethau gwych ar y drws ffrynt i fod yn wir yng nghanol bywyd Penybont.

Mae gan Goleg Penybont rhywbeth i bawb ac yn cynnig profiad unigryw i ddysgwyr.

## Campws Penybont, Heol y Bont-faen

Wedi'i leoli o fewn pellter cerdded i ganol dref Penybont. Mae hwn yn gampws prysur sy'n cynnig ystod eang o gyrsiau o Astudiaethau Plentyndod a Pheirianneg i Wallt a Harddwch a Gwyddoniaeth Fforensig. Fel gyda'n holl gampysau, cei dy gefnogi gan dîm o staff cymwys iawn sy'n ymarferwyr gweithredol yn eu meysydd arbenigedd.

Mae'r cyfleusterau yma'n cynnwys ein Gwasanaethau Dysgwyr, Hwb Cyfleoedd, Theatr Sony, Salonau Gwallt a Harddwch 'InTuition', y Ffreutur, a 'Seasons', ein bwyty sy'n darparu ar gyfer myfyrwyr, staff a'r cyhoedd. Mae Campws Penybont hefyd yn gartref i Dŷ Weston, ein llety preswyl pwrpasol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd ag anableddau neu namau.

## Campws Maesteg

Mae ein campws ym Maesteg wedi ei leoli ar Stryd y Castell, yng nghanol tref Maesteg ac o fewn cyrraedd hawdd i gyfleusterau lleol. Mae cyrsiau rhan-amser yn cynnwys TGAU Mathemateg ac Iaith Saesneg, Sgiliau Hanfodol, Llwybrau a Chymraeg i Oedolion. Mae hefyd yn gartref i'r Diploma Lefel 1 llawn amser mewn Cyfryngau Rhyngweithiol a'r Diploma Lefel 1 mewn Archwilio Celfyddydau Creadigol a'r Sectorau Cyfryngau.

## Campws Pencoed

Mae'r campws hwn yn gartref i'n meysydd astudiaethau Tir Seiliedig, Adeiladwaith a Chwaraeon sy'n cynnwys cyfleusterau gwych megis cae chwaraeon 3G, adrannau ceffylau modern, a neuadd chwaraeon. Wedi'i leoli ar gyrion pentref Pencoed, mae'r campws hwn hefyd yn cynnig cyfleusterau lleol a chysylltiadau cludiant sy'n hawdd eu cyrraedd.

Gyda digonedd o le agored a chefn gwlad yma, fe allet astudio unrhyw beth o Sgiliau Cefn Gwlad i Arddwriaeth, Gofal Anifeiliaid, Gosod Briciau a Hyfforddiant Chwaraeon. Byddet yn elwa o gyfleusterau unigryw fel ein ffermydd allgymorth, ardaloedd cadwraeth, canolfannau gofal anifeiliaid a mannau ymarfer ceffylau.

Gallet hefyd gynrychioli'r Coleg trwy gymryd rhan yn ein hacademïau rygbi a phêl-droed, yn ogystal â chynrychioli'r Coleg fel rhan o dîm neu unigolyn ym Mhencampwriaethau Coleg Cymru.

## Campws Heol Y Frenhines

Mae campws Heol Y Frenhines wedi'i leoli ar Ystâd Ddiwydiannol Penybont ac mae'n cefnogi llawer o'n cyrsiau dosbarth Addysg Uwch (AU) yn ogystal â'n tîm Dysgu Seiliedig ar Waith.

## Gwobrau a chydnabyddiaeth

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ennill rhai gwobrau mawreddog ac rydym mor falch o'r hyn a wnawn yma i'n dysgwyr a'n staff.
Hyd yn hyn, rydym wedi derbyn y gwobrau canlynol:

**Coleg AB sy'n Perfformio Orau 2016/17**

Ni yw'r Coleg sy'n perfformio orau* yng Nghymru gyfan yn ôl astudiaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Arolygiad Estyn**
**'Dwbl Ardderchog'**

Derbyniodd y Coleg y wobr prin 'dwbl ardderchog' am ei berfformiad presennol a'i fwriad i wella. Cawsom 11 gradd 'Ardderchog' a 4 gradd 'Da' gan Estyn. Ar hyn o bryd ni yw'r unig ** Coleg AB yn Ne Cymru gyfan i gael adroddiad 'Dwbl Ardderchog'.

**'The Sunday Times 100' Sefydliadau Nid-Ar-Elw Orau i Weithio Iddi**

Penodwyd Coleg Penybont yn 28ain yn y 100 Sefydliad Di-Elw gorau i weithio ar gyfer 2017 y Sunday Times - yr unig Goleg AB yng Nghymru i gael ei gydnabod yn y categori hwn.

**Darparwr Prentisiaeth y Flwyddyn**

Enillydd Gwobr rhanbarthol AELP Darparwr Prentisiaeth y Flwyddyn Wythnos AB ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

* Mae'r data hwn yn dod o astudiaeth 'All Qualifications'.
** Roedd y wybodaeth hon yn gywir adeg cyhoeddi Chwefror 2019.

**Medal Rhagoriaeth**
**Tiwtor y Flwyddyn**

Enillodd darlithydd Rheolaeth Cefn Gwlad Lyn Evans Tiwtor y Flwyddyn a Medal Rhagoriaeth gan City and Guilds.

**Cytundeb Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC)**

Coleg Penybont oedd y Coleg AB cyntaf yng Nghymru i arwyddo Cytundeb NDC. Rydyn ni nawr yn eistedd ymysg llawer o sefydliadau addysgol o bob cwr o'r byd.

**Gwobrau Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth**

Gwobr 'Beacon' Cymdeithas y Colegau (AoC) ar gyfer Datblygu Sgiliau Trosglwyddadwy ac ar gyfer Arweinyddiaeth a Llywodraethu.

**Gwobrau Pearson**

Enillodd staff Teithio a Thwristiaeth Coleg Penybont Gwobr Addysgu Arian 'Pearson' ar gyfer Tîm AB y Flwyddyn - un o ddim ond deuddeg tîm yn y wlad i wneud hynny.

Mae llawer o'n dysgwyr hefyd wedi ennill gwobrau mawreddog, o Ddysgwyr y Flwyddyn i Wobrau Sgiliau Galwedigaethol. Edrychwch ar ychydig o enghreifftiau diweddar:

**Adam Griffiths** - Dysgwr y Flwyddyn (Uwch) yng Ngwobrau Cymwysterau Galwedigaethol 2018.
**Alice Slennett** - Enillydd Gwobr Prentisiaid Ifanc 2017.
**Alys Pritchard** - Ail le ym Mhencampwriaethau Coginio Rhyngwladol Cymru 2018.

# Astudio gyda ni

**Mae'n hawdd gwneud cais am le ar un o'n cyrsiau, ond os nad wyt ti'n si□r pa gwrs i ddewis, dere draw i un o'n Nosweithiau Agored i siarad â rhai o'n darlithwyr. Mae ein nosweithiau agored fel arfer yn digwydd yn ystod mis Tachwedd, Ionawr, Mawrth a Mai.**

**Ond, nid oes rhaid aros am un o'n digwyddiadau. Os wyt ti eisoes yn gwybod y cwrs rwyt ti am astudio, cwblha ffurflen gais ar-lein trwy wefan y coleg neu yn un o dderbynfeydd y campws a / neu feysydd Gwasanaethau Dysgwyr.**

**Os wyt ti'n ansicr ynghylch y broses ar unrhyw adeg, cysyllta â ni a byddwn yn hapus i helpu.**

**Mae gwybodaeth fanwl am bob cwrs ar gael ar ein gwefan. Gellir hefyd cysylltu â'n Tîm Gwasanaethau Dysgwyr ar 01656 302 302 i siarad am unrhyw gyngor y gallet fod angen.**

## Cam 1: Cwblhau ffurflen gais ac archebu cyfweliad

Rydym yn derbyn ffurflenni cais trwy gydol y flwyddyn ond cofia fod rhai cyrsiau'n llenwi'n gyflym, felly cyn gynted ag y byddet yn gwneud cais yn well. Tra byddet ti'n gwneud cais ar-lein, bydd gennyt ddewis i archebu slot cyfweliad. Bydd nifer o ddyddiadau i ddewis i dy weddu.

## Cam 2: Gwahoddiad i gyfweliad


Dere i dy gyfweliad ar y dyddiad o ddewis (edrycha ar ba gampws bydd rhaid i ti fynychu). Fe gei di gynnig amodol neu ddiamod. Efallai bod cyfweliadau yn swnio'n frawychus ond paid â phoeni mae'n sefyllfa anffurfiol a byddwn yn dy gefnogi yr holl ffordd.

## Cam 3: Ymrestru

Mae ymrestru'n digwydd fel arfer ym mis Awst. Anfonir e-bost, llythyr, neu neges destun (dy ddull cyswllt o ddewis) gyda phopeth y bydd angen i ti ddod gyda thi i ymrestru. Mae ymrestru fel arfer yn digwydd ar ein Campws ym Mhenybont.



**Gwna gais ar-lein heddiw ar bridgend.ac.uk/apply-today**



# Cymryd Rhan!

Fel Dysgwyr yng Ngholeg Penybont, fe'ch anogir i gymryd rhan mewn gweithgareddau a allai fod y tu allan i'r cwrs, megis gwirfoddoli, clybiau a chymdeithasau yn ogystal â digwyddiadau amrywiol.

Mae yna ddigonedd o gyfleoedd i weddu i bawb, felly beth wyt ti'n aros amdano?

## Cymrya rhan mewn:

### Digwyddiadau
Digwyddiadau amrywiol yn gysylltiedig â dathliadau gwahanol a diwrnodau coffa trwy gydol y flwyddyn, megis 'Wythnos Gymraeg', Dydd G□yl Dewi, Diwrnod Shwmae, digwyddiadau Camau Nesaf a llawer mwy.

### Chwaraeon
Cynrychioli Coleg Penybont ym Mhencampwriaethau Coleg Cymru fel rhan o dîm neu fel unigolyn. Chwaraea i Goleg Penybont gyda'n Hacademïau Rygbi, Pêl-droed a Phêl-rwyd.

### 'WorldSkills'
Fel dysgwr yng Ngholeg Penybont, byddwn yn dy annog i ddatblygu a rhagori yn dy astudiaethau a rhoi cyfleoedd i ti gystadlu mewn Cystadlaethau Sgiliau rhanbarthol a chenedlaethol.

### Seremoni Gwobrau Blynyddol
Pob blwyddyn rydym yn dathlu llwyddiant a chyflawniad ein dysgwyr. Mae unigolion sy'n cyflawni'n uchel ac sy'n ysbrydoledig yn cael eu cydnabod am eu hymrwymiad a'u llwyddiant.

### Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr
Dysgwyr Coleg Penybont yw 'StARs' sydd wedi'u dewis gan eu cyfoedion i'w cynrychioli ar bob cwrs. Mae 'StARs' yn helpu i sicrhau bod lleisiau dysgwyr yn cael eu clywed ac yn rhoi adborth i unrhyw farn a materion sy'n ymwneud â chyrsiau a'r Coleg yn gyffredinol.

### Llysgenhadon
Mae dod yn Llysgennad Coleg Penybont yn ffordd wych o gymryd rhan ym mywyd y coleg a rhoi rhywbeth yn ôl. Fe gei di gyfleoedd gwych i gefnogi digwyddiadau ar draws y coleg, gan gynnwys ein Nosweithiau Agored, Ffair y Glaswyr, Noson Wobrwyo a digwyddiadau amrywiol i godi arian.

### Cerdyn 'Totum'
Pwy sydd ddim yn caru disgownt? Fel dysgwr o Goleg Penybont, rwyt ti'n gymwys i wneud cais am gerdyn 'Totum' a derbyn dros 200 o ostyngiadau gwych am ddim ond £12 y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| 40% i ffwrdd yn Pizza Express ar ddydd Llun a dydd Mawrth | 25% i ffwrdd yn Odeon a Cineworld |
| 35% i ffwrdd yn Dominos Pizza | 10% i ffwrdd yn Jack Wills |
| 10% i ffwrdd yn ASOS.com | 10% i ffwrdd yn Topshop / Topman |
| 10% i ffwrdd yn y Co-op | Aelodaeth Myfyrwyr Amazon |

**Cofrestra ar-lein ar nusextra.co.uk neu gyda Gwasanaethau Dysgwyr yn y Coleg.**

# Cymorth i Ddysgwyr

**Yma yng Ngholeg Penybont mae gennym dîm arbenigol sy'n ymroddedig i dy gefnogi trwy dy astudiaethau.**

Mae tiwtor dy gwrs, ein tîm yng Ngwasanaethau Dysgwyr neu ein Swyddogion Lles yn wastad wrth law i ateb dy gwestiynau neu i dy gyfeirio yn y cyfeiriad cywir.



## Gwasanaethau Cymorth Dysgwyr

Mae'r adran Cymorth Arbenigol yn cynnig help a chymorth i ti os oes gennyt Angen Ychwanegol neu anabledd. Mae ein staff yn gymwys yn eu hardal arbenigol i sicrhau dy fod yn derbyn gwasanaeth o'r radd flaenaf.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

- Cymorth Dyslecsia
- Cymorth Byddar a Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain / Cymorth Cyfathrebu
- Gwasanaeth Colli Golwg
- Gwasanaeth Technoleg Gynorthwyol
- Cymorth Ystafell Ddosbarth

## Meithrinfa Ddydd

Mae Meithrinfa Ddydd Coleg Penybont, a leolir yn ein Campws Penybont, yn darparu amgylchedd hapus, ysgogol a diogel i blant 6 wythnos i 5 mlynedd.

Cafodd y Feithrinfa ei arolygu gan Estyn a graddiodd yn 'Ardderchog'. Efallai y bydd dysgwyr amser llawn AB yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol tuag at gostau gofal plant os yw dy blentyn yn mynychu ein meithrinfa. Ewch i bridgendcollegedaynursery.co.uk.

## Lles Dysgwyr

Mae ein Tîm Lles yma i gefnogi pob dysgwr sy'n astudio yng Ngholeg Penybont. Mae ein tîm ymroddedig wrth law i wrando ar unrhyw bryderon a allai fod gennyt, p'un a yw'n ymwneud â dy gwrs neu fater mwy personol.

## Bydda'n bos dy hun

Rydym yn cwmpasu gweithgareddau menter yn ein cwricwlwm a'n prosiectau cefnogol fel rhan o gymwysterau Bagloriaeth Cymru.

Rydym hefyd yn gallu dy gynorthwyo mewn ystod o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol a gallwn dy gefnogi gyda:

- Dechrau busnes dy hun
- Gwella sgiliau menter
- Mentrau megis codi arian

## Cyfnewid Paid Gollwng

Os wyt ti'n ddechrau cwrs yng Ngholeg Penybont ac yn penderfynnu nad yw'n iawn i ti, paid â phoeni. Gallet ti gyfnewid yn ystod 4 wythnos gyntaf dy ddyddiad dechrau. Bydd angen i ti siarad â dy diwtor neu Wasanaethau Dysgwyr i ddod o hyd i gwrs arall.

# Gwasanaethau Cymraeg



Deallwn fod llawer o'n dysgwyr yn dod o ysgolion a chartrefi Cymraeg felly rydyn yn sicrhau bod yna gyfleoedd gwych i ddefnyddio'r Gymraeg wrth astudio yn y coleg. Os hoffet ti ddatblygu dy sgiliau presennol yna cysyllta â ni i drafod yr hyn sydd ar gael yn Gymraeg, er enghraifft;


| | |
|---|---|
| **Astudio rhan o dy gwrs yn Gymraeg** | **Cymwysterau Cymraeg ychwanegol** |
| **Sesiynau cymorth tiwtorial un i un** | **Lleoliad profiad gwaith yn y Gymraeg** |

Mae Coleg Penybont yn cydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg, gan sicrhau bod ein holl adnoddau a'n deunyddiau yn ddwyieithog ac yn hygyrch. Ewch i bridgend.ac.uk/welshstandards.

Mae gan bob dysgwr sy'n astudio mewn colegau a phrifysgolion yng Nghymru hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn anog a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Ngholeg Penybont! Bydd gennyt lawer o gyfleoedd i ddefnyddio dy Gymraeg yma gyda ni.

I ddarganfod mwy am y safonau a beth yw dy hawliau fel dysgwr cer i comisiynyddgymraeg.cymru.

**#MAEGENIHAWL**





# 'Cyfleoedd'



(Mae ein canolbwynt gyrfaoedd newydd ar gyfer ein dysgwyr i chwilio am waith)

Prif bwrpas Cyfleoedd yw i ddysgwyr a chyflogwyr wella addysg yrfaoedd, hyrwyddo cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwaith a galluogi llwybrau talent i fusnes. Hysbysebir cyfleoedd cyflogaeth yn y canolbwynt ac maent hefyd ar gael ar-lein i'n dysgwyr.

Mae Cyfleoedd yn adeiladu ar ein datganiad cenhadaeth ehangach yn y coleg, gan alluogi i'n dysgwyr i 'fod yn bopeth y gallant fod' trwy eu paratoi a'u cefnogi i gyflawni, datblygu a chael cyfleoedd gyrfaol ystyrlon.

Mae cyfleoedd partneriaeth gyda busnesau lleol a chenedlaethol yn ein galluogi i ddatgelu dysgwyr i fyd gwaith a sicrhau eu bod yn gallu datblygu ac adeiladu eu brand personol o fewn y farchnad gyflogaeth agored. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi mentrau micro, bach a chanolig (BauBC).

**Mae amrywiaeth o ffyrdd y gall busnesau a chyflogwyr weithio gyda ni gan gynnwys:**

| |
|---|
| Hysbysebu swyddi gwag |
| Darparu ymweliadau safle a theithiau i helpu dysgwyr i gael cipolwg ar fyd gwaith |
| Mentora neu hyfforddi dysgwr neu grŵp o ddysgwyr |
| Cyrchu prentis o'r Coleg |



# Prentisiaethau



**Gallet astudio prentisiaeth gyda Choleg Penybont tra byddet yn gyflogedig.**

Mae astudio am brentisiaeth yn ffordd ddelfrydol i bobl ifanc ac oedolion sy'n dysgu i ennill arian wrth ddysgu mewn swydd go iawn, gan ennill cymhwyster go iawn a dyfodol go iawn.

Fel prentis gallet astudio o ystod eang o feysydd pwnc;
- Plymio
- Peirianneg Sifil
- Ceffylau
- Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Nyrsio Milfeddygol

Ar ôl i ti gael dy gyflogi a'r coleg wedi trafod dy brentisiaeth, bydd gennyt wiriadau cynnydd rheolaidd i sicrhau bod dy gyflogwr yn dy gefnogi a dy fod ti'n gwneud cynnydd rhagorol.

Fel prentis byddet yn derbyn cyflog rheolaidd gyda gwyliau â thâl a'r un buddion â gweithwyr eraill yn dy sefydliad. Bydd dy gyflog yn cynyddu'n raddol wrth i dy sgiliau ddatblygu a gallet ti hyd yn oed elwa o arian ychwanegol ar gyfer hanfodion megis llyfrau, gwisgoedd neu offer.

Os nad wyt ti'n dal i fod yn si□r a fyddai'r llwybr prentisiaeth yn iawn i ti, beth am ddod i lawr i un o'n nosweithiau agored a sgwrsio ag aelod o'n tîm, neu edrycha ar ein hastudiaethau achos ar gyfer mewnwelediad dilys o beth mae'n debyg ei fod yn brentis gyda Choleg Penybont.



## 7 rheswm pam y dylet ti astudio prentisiaeth gyda Choleg Penybont:

1. Ennill arian wrth ddysgu
2. Gwella sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dy yrfa ddewisol
3. Ennill cymhwyster parchus a gydnabyddir yn genedlaethol
4. Cynigir dros 40 o gyrsiau Prentisiaeth yng Ngholeg Penybont
5. Ennill cymwysterau TGAU i lefel Gradd
6. Hyfforddiant ar y swydd gyda lleoliadau gwaith yn ogystal â chymorth yn y dosbarth
7. Cwblha dy astudiaethau wrth weithio tuag at dy yrfadosbarth



Rydym yn swyddogol yn ddarparwr o ddewis 2018 ar gyfer rhaglenni prentisiaeth yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.



Enillodd **Sion Pennell**, ein Prentis Lefel 3 Peirianneg Sifil, y Wobr Prentisiaid y Flwyddyn APSE 2018.

# Courses

- Mynediad i Addysg Uwch
- Amaethyddiaeth a Chefn Gwlad
- Gofal Anifeiliaid a Cheffylau
- Celf, Dylunio a Chyfryngau Creadigol
- Adeiladwaith
- Busnes a Chyfrifeg
- Astudiaethau Plentyndod
- Peirianneg a Chynnal a Chadw Cerbydau
- Garddio a Thirlunio
- Gwallt, Harddwch a Therapi Cyflenwol
- Gofal Iechyd a Chymdeithasol
- Lletygarwch a Theithio
- Sgiliau Byw'n Annibynnol
- TG a Chyfrifiaduro
- Cerddoriaeth a Chelfyddydau Perfformio
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Gwyddoniaeth
- Sgiliau
- Chwaraeon





“Roedd y cwrs mynediad yn cynnwys amrywiaeth o bynciau sy’n berthnasol i’r llwybr gyrfa a ddewiswyd gennyf. Roedd y tiwtoriaid wrth law bob amser gyda chyngor ac arweiniad, yn enwedig ar ddewisiadau yn y dyfodol, fel pa gyrsiau Gradd oedd ar gael. Roedd gan fy nhiwtor a hyfforddwr sgiliau rôl mor bwysig yn fy astudiaeth - Byddwn yn argymell i unrhyw un ddefnyddio’r hyfforddwyr sgiliau cymaint â phosib. Rwyf nawr yn astudio Gradd Sylfaen yn ddarpariaeth addysg uwch y coleg. Dyma oedd fy newis cyntaf, gan fod gen i deulu ifanc, ac mae’r cyrsiau’n gweithio o gwmpas fy mywyd cartref.”

**Tracey**
Mynediad i Addysg Uwch Gofal Cymdeithasol

# Access to Higher Education



## Os wyt ti eisiau astudio ar gyfer gradd, ond nid oes gennyt y cymwysterau mynediad, mae astudio cwrs Mynediad i AU yn ffordd wych o fynd â thi yn ôl i astudio ac yn barod ar gyfer y cam nesaf yn eich taith ddysgu.

Mae'r Diploma Mynediad at Addysg Uwch yn gymhwyster yn y DU sy'n dy baratoi, i astudio fel israddedig yn y brifysgol. Mae'r diploma wedi'i ddylunio ar gyfer y rheiny a allai fod wedi ennill cymwysterau ychydig, os o gwbl, ac yn dymuno mynychu'r brifysgol fel newid gyrfaol.

| **Beth hoffet ti fod?** | |
|---|---|
| Nyrs | Gweithio mewn ymchwil a Datblygiad |
| Gweithiwr Gofal Iechyd | Gweithiwr Cymdeithasol |
| Gwyddonydd Fforensig | Bydwraig |
| Dylunydd | Dylunydd Gwe ac Ap |
| Golygydd Ffilm | Animeiddiad |

## Cyrsiau ar gael/Modiwlau nodweddiadol

**Biowyddorau**
Anatomeg a Ffisioleg, Cemeg, Seicoleg, Daearyddiaeth / Gwyddor yr Amgylchedd, Bioleg a Mathemateg.

**Gofal Iechyd**
Astudiaethau Iechyd, Anatomeg a Ffisioleg, Seicoleg a Cymdeithaseg.

**Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol**
Astudiaethau Diwylliannol, Saesneg, Seicoleg, Hanes, Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau'r Cyfryngau.

**Gofal Cymdeithasol**
Gwaith Cymdeithasol, Polisi Cymdeithasol, Astudiaethau Iechyd a Seicoleg.

**Sgiliau ar gyfer Astudiaeth Pellach (Cyn Mynediad i AU ar gyfer Mynediad i Iechyd / Gofal)**
Diogelu a Chwnsela, Cymdeithaseg, Astudiaethau Iechyd, Saesneg a Seicoleg.

**Cyfryngau Creadigol a Digidol**
2D, Dylunio Graffeg, Camera, Technegau Microffon. Saethu fideos, Darlunio, Dylunio gwe.



# Agriculture and Countryside

“Mae’r cwrs Lefel 3 Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad wedi fy helpu i ddatblygu fy ngwaith ymarferol ac academaidd ynglŷn â rheoli cefn gwlad. Mae’r darlithwyr brwdfrydig wedi fy helpu i ddeall cydberthynasau cymleth rhywogaethau sydd ar garreg ein drws. Mae’r tripiau maes mewn ardaloedd fel y Bannau Brycheiniog, Eryri ac arfordir rhagorol Cymru wedi fy helpu i atgyfnerthu fy mhenderfyniad i amddiffyn bywyd gwyllt a’r dirwedd Gymreig. Wedi gorffen y cwrs, rwyf wedi diogelu swydd yn Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ac yn ymroi’r sgiliau a wnes elwa o’r Coleg yn fy mywyd gwaith.”

**Millie**
Dysgwr Lefel 3



## Wyt ti erioed wedi meddwl am weithio i'r sector amgylcheddol?

Rydym yn cynnig cyrsiau sy'n cynnwys rheoli cynefin ar gyfer bywyd gwyllt a sgiliau cefn gwlad. Mae ein cyrsiau'n cychwyn o Astudiaethau Tir Lefel 1 i gyrsiau Addysg Uwch mewn Rheoli Cadwraeth Amgylcheddol.

Wedi'i leoli yn ein campws Pencoed, rydym yn cynnig cyfleusterau gwych ar y safle, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth, siop gwaith coed a chyfleusterau amaethyddol lle gallet gael profiad ymarferol gydag amrywiaeth o anifeiliaid a chynefinoedd.

Mae'r cyrsiau'n cynnwys teithiau i'r Arfordir Treftadaeth, Bannau Brycheiniog, G□yr a nifer o warchodfeydd natur yn Ne Cymru.

| **Beth hoffet ti fod?** | |
|---|---|
| Ceidwad Cefn Gwlad | Swyddog Addysg |
| Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus | Cadwraethwr |
| Swyddog Prosiect Bywyd Gwyllt | Ecolegydd / Arolygwr |
| Rheolwr Fferm | Ffermwr Da Byw |
| Maethegydd fferm | |

## Cyrsiau ar gael/Modiwlau nodweddiadol

**Diploma Lefel 1 mewn Astudiaethau Tir**
Gofalu am dda byw, ffensio, cynnal a chadw llwybrau troed a chadw anifeiliaid iach.

**Diploma Lefel 2 mewn Sgiliau Anifeiliaid Fferm a Chefn Gwlad**
Sgiliau cadwraeth ymarferol, cynnal iechyd a lles anifeiliaid, rhywogaethau bywyd gwyllt Prydain ac adsefydlu a phrofiad gwaith.

**Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Rheoli Cefn Gwlad) (Diploma 90 Credyd Lefel 3)**
Arolygon ecolegol, sgiliau cadwraeth ymarferol, rheoli cynefinoedd coetiroedd, dehongliad amgylcheddol a rheoli ardaloedd arfordirol.

**Diploma Lefel 2 mewn Amaethyddiaeth**
Cynnal a chadw ystadau, rheoli glaswelltir, da byw fferm a phrofiad gwaith.

**Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Amaethyddiaeth**
Cynhyrchu cig eidion a defaid, gwyddor planhigion a phridd, bridio a maeth, rheoli busnes fferm a mecaneiddiad fferm.

**Oeddet ti'n gwybod?**
Enillodd ein darlithydd Rheolaeth Cefn Gwlad, Lyn Evans, y wobr Medal Rhagoriaeth Twitor y Flwyddyn o City and Guilds.



“Rwy’n argymell Coleg Penybont i’m ffrindiau gan ei fod yn cynnig llawer o arweiniad, cefnogaeth a chyfleoedd.”

**Lucy**
Rheolaeth Anifeiliaid Lefel 3

“Rwy’n mwynhau elfen ymarferol y cwrs, y gallu i fod yn ymarferol gyda cheffylau. Byddwn yn argymell Coleg Penybont gan fod yr awyrgylch mor dda, mae fy ngwersi i gyd yn bleserus ac yn wirioneddol ddiddorol iawn.”

**Bethany**
Dysgwr Rheolaeth Ceffylau Lefel 3

# Animal and Horse Care

# Wedi'u lleoli yng Nghampws Pencoed, mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys meysydd Gofal Anifeiliaid, Nyrsio Milfeddygol a Cheffylau (gofal ceffylau).

Mae gennym gyfleusterau rhagorol i dy helpu ymhellach i dy astudiaethau yn y meysydd hyn gyda phwyslais ar hyfforddiant ymarferol i dy helpu i gael y profiad llawn.

Mae cyfleusterau'n cynnwys ystod o anifeiliaid bach, mawr ac egsotig, stablau ar gyfer 30 o geffylau, lleodd ymarfer dan do ac awyr agored, a chwrs traws gwlad. Mae gennym hefyd labordy gwyddonol, parlwr trin cŵn, ac ardal nyrsio filfeddygol sydd â chyfarpar llawn.

| Beth hoffet ti fod? | |
|---|---|
| Nyrs Milfeddygol | Rheolwr Iard neu Was Stabl |
| Deintydd Ceffylau | Swyddog Lles Anifeiliaid neu Dechnegydd Gofal |
| Ceidwad Sw | Hyfforddwr Marchogaeth |

## Oeddet ti'n gwybod?

Mae'r diwydiant gofal anifeiliaid werth £1 biliwn i economïau'r DU. Mae ganddi 13,000 o fusnesau, 78,000 o weithwyr a llawer o wirfoddolwyr. Mae gyrfaoedd yn cynnwys gweithio yn y meysydd canlynol:

- cenel a chathdy,
- hyfforddiant,
- trin,
- elusennau lles anifeiliaid,
- sw a pharciau bywyd gwyllt,
- gwasanaethau cyhoeddus
- perfformio anifeiliaid mewn ffilm a theledu.

## Oeddet ti'n gwybod?

Yn groes i gred boblogaidd, nid yw'n hanfodol i ti fod yn farchogwr medrus i fod yn llwyddiannus yn y diwydiant ceffylau. Mewn gwirionedd, mae yna lawer o gyfleoedd i'r rheini nad ydynt erioed wedi marchogaeth diwrnod yn eu bywydau.



## Cyrsiau ar gael/Modiwlau nodweddiadol

**Diploma Lefel 1 Astudiaethau Anifeiliaid**
Bwydo a dyfrio anifeiliaid, trin ac atal anifeiliaid, datblygu perfformiad mewn diwydiannau tir ac ymarfer corff anifeiliaid.

**Tystysgrif Dechnegol Lefel 2 Gofal Anifeiliaid**
Ymddygiad a thrin anifeiliaid, iechyd a lles anifeiliaid, bioleg a llety a bwydo a phrofiad gwaith.

**Diploma yn Seiliedig ar Waith Lefel 2 Gofal Anifeiliaid**
Paratoi ac ysgrafellu anifeiliaid, rheoli ac atal anifeiliaid, darparu cyfleoedd i anifeiliaid gael rhyddid i ymarfer a pharatoi bwyd anifeiliaid.

**Diploma Technegol Estynedig Lefel 3 mewn Rheolaeth Anifeiliaid**
Rheoli anifeiliaid ecsotig, ymddygiad anifeiliaid, maeth anifeiliaid, bioleg, rheoli sw a phrofiad gwaith.

**Gofal Ceffylau (Seiliedig ar Waith) Diploma Lefel 1**
Ysgrafellu a golchi, bwydo a dyfrio ceffylau, rygiau a thac a dyletswyddau stabl.

**Diploma yn Seiliedig ar Waith Lefel 2 mewn Gofal Ceffylau**
Bwydo, sgiliau rheoli stabl, marchogaeth a thrin ceffylau.

**Tystysgrif Dechnegol mewn Gofal Ceffylau Lefel 2**
Iechyd a lles ceffylau, tac ac offer ceffylau, trin ceffylau ac ysgrafellu, cyflwyniad i ragwthio a phrofiad gwaith.

**Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Rheolaeth Ceffylau**
Gweithredoedd iard, iechyd ceffylau, ymarfer ceffylau, gosod a gwerthuso tac ac offer ceffylau, styd a busnes.



# Art, Design and Media

"Des i i'r Coleg i astudio Cyfryngau Creadigol a Rhyngweithiol. Rwyf bellach ar y cwrs Cyfathrebu Graffeg Gradd Sylfaen. Ni fyddwn wedi cyrraedd yno pe na bai am gefnogaeth tiwtoriaid yn y Coleg a oedd yn fy ysgogi ac wedi gwneud y coleg yn bleserus iawn."

**Tomas**
Dysgwr Cyfathrebu Graffeg Gradd Sylfaen

# Os wyt ti'n hoff o fod yn greadigol yna mae cwrs celf, dylunio neu gyfryngau creadigol ar gyfer ti.

Yn cwmpasu ystod eang o ddisgyblaethau, gyda meysydd yn cynnwys Cyfryngau Rhyngweithiol, Ffotograffiaeth, Serameg, Ffasiwn a Thecstilau a Chelf Gain, byddet yn elwa o adnoddau safonol y diwydiant yn ein campysau ym Mhenybont a Maesteg. Mae cyfle hefyd i arddangos dy waith i deulu, ffrindiau a'r cyhoedd yn ein harddangosfa Celf, Dylunio a'r Cyfryngau blynyddol.

Yn ogystal, gellir astudio modiwlau cyfryngau creadigol megis dylunio digidol, sgriptio, golygu ffilmiau a ffotograffiaeth.

| Beth hoffet ti fod? | |
|---|---|
| Dylunydd Ffasiwn | Ffotograffydd |
| Dylunydd | Golygydd Ffilm |
| Cynhyrchydd Radio | Dylunydd Gêm |

## Cyrsiau ar gael/Modiwlau nodweddiadol

**Ffasiwn a Thecstilau Diploma Lefel 3**
Darlunio bywyd, dylunio ffasiwn, peiriannau gwnïo a gwneuthuriad dillad.

**Celf a Dylunio Diploma Lefel 2**
Celf gain, serameg, gwneud printiau a ffotograffiaeth.

**Oeddet ti'n gwybod?** Mae gennym gyfleusterau safonol y diwydiant gan gynnwys stiwdios pwrpasol, gweithdai ag ystafelloedd recordio.



**Celf a Dylunio Diploma Lefel 3**
Darlunio a phaentio celf gain, dylunio 3D, graffeg a ffasiwn a thecstilau.

**Cyfryngau Creadigol Lefel 1 (Campws Maesteg)**
Golygu ffilmiau, Photoshop, ffotograffiaeth a recordio sain.

**Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol Diploma Mynediad i AU**
Astudiaethau Diwylliannol, Llenyddiaeth, Astudiaethau'r Cyfryngau,Seicoleg, cyflwyniadau llafar a sgiliau cyfathrebu.

**Cyfryngau Creadigol a Digidol Lefel 3 Diploma Mynediad i AU**
Dylunio graffeg 2D, darluniad cyfrifiadurol, dylunio gwe ac ap, technegau camera, goleuadau stiwdio a bwrdd stori.

**Cyfryngau Cymysg Diploma Lefel 2**
Celf ddigidol, graffeg, ffotograffiaeth a 3D.

**Ffilm a Chyfryngau Creadigol Diploma Lefel 2**
Gwaith camera, cyhoeddi, sgriptio a golygu fideo.

**Ffilm a Chyfryngau Creadigol Diploma Lefel 3**
Cynhyrchu fideo cerddorol, graffeg digidol ar gyfer print, animeiddiad, golygu ffilm a fideo.

**Ffotograffeg Diploma Lefel 3**
Ymarfer ystafell dywyll, golygu delwedd ddigidol, technegau stiwdio a chyfrifiaduron mewn celf a dylunio.

**Celfyddydau Digidol (Animeiddio a Dylunio Graffig) Diploma Lefel 3**
Dylunio gwefannau, cyfathrebu gweledol, trin delweddau a chynhyrchu fideo a sain.



Cafodd Adam Griffiths, Prentis Uwch yng Ngholeg Penybont ei enwi ar y rhestr fer ar gyfer Dysgwr y Flwyddyn yng Ngwobrau Cymwysterau Galwedigaethol yn 2018.

Ers iddo fynychu'r Coleg, mae wedi ennill llawer o gymwysterau ychwanegol gan gynnwys cyrsiau Sgiliau Hanfodol Cymru, Diploma Lefel 3 mewn Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiledig a Phrentisiaeth Lefel 3 mewn Peirianneg Sifil i Dechnegwyr.

**Adam Griffiths,**
**Prentis mewn Adeiladwaith**



# Building and Construction

# Mae ein hadran Adeiladwaith yn cynnig rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i ti ddatblygu masnach fel Gwaith Brics, Gwaith Saer, Plymio, Peintio ac Addurno.

Gallet hefyd ennill y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i fynd i mewn i broffesiwn megis Pensaernïaeth, Arolygu neu Beirianneg Sifil.

Cynhelir y cyrsiau hyn yn ein Hacademi Adeiladwaith o'r radd flaenaf ar Gampws Pencoed. Fe gei di werthfawrogiad o sut mae'r holl feysydd crefft yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu adeiladau effeithlon a diogel.

| Beth hoffet ti fod? | |
|---|---|
| Saer Coed | Briciwr |
| Plymiwr | Swyddog Cynllunio |
| Arolygwr | Peiriannydd Sifil |



## Cyrsiau ar gael/Modiwlau nodweddiadol

**Diploma Gosod Briciau Lefel 1**
Sgiliau gosod brics, iechyd a diogelwch yn y diwydiant adeiladu, cyfathrebu'n effeithiol mewn crefftau adeiladu a pharatoi briciau

**Diploma Gosod Briciau Lefel 2**
Datblygu sgiliau i adeiladu waliau cadarn, waliau ceudod a phatrymau addurnol wrth bondio gwaith brics

**Diploma Gwaith Saer Lefel 1**
Datblygu sgiliau a gwybodaeth am fynd i mewn i'r diwydiant

**Diploma Gwaith Saer Safle Lefel 2**
Datblygu sgiliau i adeiladu gwaith coed 1af a 2il fel gosod to gyda thrawst, hongian drysau a ffitio ceginau sylfaeno

**Diploma Saer Mainc Lefel 2**
Sefydlu a gweithredu llif crwn, cynhyrchu manylion gosod ar gyfer cynhyrchion saer mainc, marcio allan o gynhyrchion osod a chynhyrchu cynhyrchion

**Peiriannu Coed Lefel 2**
Gosod a gweithredu peiriannau ar gyfer llifio, planio, cyd-gyfuno a phroffilio

**Adeiladwaith a Pheirianneg Sifil Lefel 1 a 2**
Gweithrediadau adeiladwaith, gwyddoniaeth adeiladu, amgylchedd adeiledig a'r gymuned a chymwysiadau adeiladwaith

**Diploma Lefel 1 Sgiliau Adeiladwaith**
Peintio ac addurno, gosod teils waliau a llawr, plymio a gosod briciau

**Adeiladwaith a Pheirianneg Sifil Lefel 3**
Adeiladu cynaliadwy, manylion graffigol, technoleg adeiladu a dylunio ac iechyd, diogelwch a lles mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig

**Sgiliau Adeiladwaith Lefel 3 Mynediad**
Datblygu sgiliau mewn paentio ac addurno, gosod teils waliau a llawr, plymio a gosod briciau

**Diploma Lefel 1 Peintio ac Addurno**
Datblygu sgiliau a gwybodaeth am fynd i mewn i'r diwydiant

**Diploma Lefel 2 Peintio ac Addurno**
Datblygu sgiliau a gwybodaeth am fynd i mewn i'r diwydiant

**Diploma Lefel 3 Peintio ac Addurno**
Cymhwyso crogluniau i arwynebau cymhleth, cynhyrchu gorffeniadau arbenigol ar gyfer gwaith addurnol a chymhwyso systemau paentio d□r.

**Diploma Lefel 1 Plymio**
Ennill sgiliau lefel gyntaf mewn plymio mewn gweithdy hyfforddi realistig

**Diploma Lefel 2 Plymio**
Amrywiad eang o blymio domestig gan gynnwys gosodiadau d□r poeth ac oer, systemau gwres canolog a draenio, pibellau gollwng a systemau d□r




# Business and Accounting

**"Ar ôl cwblhau fy nhrydedd flwyddyn yn Astudiaethau Busnes, es i ymgymryd â phrofiad 6 wythnos gyda'r Royal Caribbean. Ar ôl gorffen y rhaglen interniaeth, mae'r cwmni wedi cynnig cyfle cyflogaeth i mi, ar ôl cwblhau'r Radd yr wyf ar hyn o bryd yn astudio yng Ngholeg Penybont."**

**Hannah**
BA Astudiaethau Busnes

**Oeddet ti'n gwybod,** Enillodd dysgwr AU yn yr adran fusnes y radd uchaf ym mhob un o'r prifysgolion yn y DU yn 2017.

# Mae ein cyrsiau busnes yn cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys y Gyfraith, Cyllid, Rheolaeth, Adnoddau Dynol, Sefydliadau Busnes, Marchnata a Chyfrifeg.

Yma fe gei di ddealltwriaeth o sut mae sefydliadau'n gweithredu, sut i gadw mewn cyllideb a defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol. Byddet hefyd yn dysgu sut mae busnesau'n gweithredu'n rhyngwladol ac yn cynllunio ac yn rhedeg ystod o ddigwyddiadau.

| Beth hoffet ti fod? | |
|---|---|
| Marchnatwr | Rheolwr |
| Gweinyddwr | Trefnydd Digwyddiadau |
| Cyfrifydd | Swyddog Adnoddau Dynol |

## Cyrsiau ar gael/Modiwlau nodweddiadol

**Diploma Rhagarweiniol Lefel 1 Busnes**
Gweithio gydag eraill, ymchwilio pwnc, creu arddangosfa weledol, cyfrannu at gynnal digwyddiad.

**Diploma Lefel 2 Busnes**
Rhagolwg ariannol ar gyfer busnes, y cynllun marchnata, cysylltiadau cwsmeriaid mewn busnes a hyfforddiant a chyflogaeth mewn busnes.

**Diploma Lefel 3 Busnes**
Egwyddorion rheolaeth, rheoli digwyddiad, datblygu ymgyrch farchnata a chyllid personol a busnes.

**AAT Lefel 2 Cyfrifeg**
Trafodion a rheolaethau llyfrifeg, elfennau costio, defnyddio meddalwedd cyfrifo a gweithio'n effeithiol mewn cyllid.



**Oeddet ti'n gwybod?**
Enillodd dysgwr AU yn yr adran fusnes y radd uchaf ym mhob un o'r prifysgolion yn y DU yn 2017.



# Childhood Studies

